WEDI PORI'N isel drwy bedair o'r wyth bennod ar hugain yn *Yr Eiddoch yn Gywir* — llyfr diweddaraf a thra derbyniol Mistar Golygydd, dyma ddal fy ngwynt ar hanes troeon y Cownti Sgŵl.

'Un o lwyddiannau mawr yr ysgol,' meddai, 'oedd bachgen o Ben y Bont ar Ogwr, W. H. J. Jenkins, (Bill), a ddaeth yno'n athro Cerddoriaeth. Y ffidil oedd ei offeryn.'

A braidd yn ofidus y sonia'r awdur amdano'i hun yn rhoi'r ffidil yn y to yn Festri Pencaenewydd a hynny'n ystod dyddiau cyntaf ei brentisiaeth mewn ffidilwriaeth. A da hynny, yn ogystal â lluchio'r sialc ddywedwn i erbyn hyn. Gwell bargen i Gymru fy ngwlad fu cael yr Alistair Cooke hwn o fro Eifionydd na chael Nero o ffidlar!

Diolch iddo, fodd bynnag, am gyfeirio at Mr Jenkins, y ffidler sionc a ddaeth i'r ysgol yn niwedd y dau ddegau llwm. Daeth yno o Goleg Aberystwyth, a hynny ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn 1925, wedi iddo ennill yno ar ganu'r ffidil yn ôl un sôn, a bod Prifathro'r ysgol D. H. Williams, M.A. (Oxon) yno yn gwrando arno, ac iddo'i fachu i'r ysgol. Ac yn rhyfedd iawn yn ddiweddar, mae sawl un wedi bod yn holi amdano.

Boed fel y bo, mi gofiaf y llanc goleubryd ar ei feic drop handyls a'i ffidil wedi'i rhwymo ar draws ei gefn, yn ei fffadlio hi o'r West End am yr ysgol yn y misoedd cynnar. A dyna fy argraff gyntaf ond arhosol am ryw reswm o'r athrylith di-flino, a'r mwyaf heintus a welais erioed o athrawon cerdd.

* * * *

F'YMATEB wrth ei wylio ef a'i ffidil o flaen y dosbarth am y tro cyntaf oedd cydio'n riwlar y sawl oedd wrth f'ochor, a gosod un pen iddi o dan fy ngên, a chwarae bysedd y llaw chwith ar y pen arall. Yna sefydlu ystum mor ffidilwrol debyg ag y medrwn i'r gwrthrych. Bachu fy riwlar fy hun hefo'r llaw dde, a dyna fynd drwy'r mosiwn.

A wir, mi fu'r antics yn ddigon imi gael fy mhig i mewn hefo'r criw gwersi rhad canol dydd.

# IOAN MAI EVANS yn cofio

# BILL JENKINS A'I FFIDIL HUD

Hynny ar waethaf wynebau fy rhieni aeth mewn dim o amser cyn hired â'r ffidil ddegswllt ar hugain a ddaeth drwy'r post o Rushworth, Lerpwl, mewn cas du. Pryniant dan brotest distaw — rwbath i gau'i geg o.

Ac fel Mistar Golygydd, fedrwn i ddim canu, ond mi roeddwn wedi perswadio fy hun fod melyslais y ffidil yn gwneud mwy nag iawn am y diffyg. Ac o ran hynny pa ganwr a fedrai ymestyn at rialtwch nodau caneri yn uchelfannau'r tant cyntaf, neu slyrio'n hudolus gân y sipsiwn ar yr union ystod lle'r oedd yr *Air on the G String*.

Mewn amser cymharol fyr roedd yn yr ysgol gerddorfa yn barod am yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaergybi os cofiaf yn iawn. Ymarfer ar foreau Sadwrn — cloi'r drws am naw, a phydru arni hefo'r *Hungarian Dances*, y Minutes a'r Trios, ac ymlaen hyd hanner dydd a Mistar Jenkins a neb arall yn gyfrifol am bopeth.

Munud o seibiant tra byddai'n rhoi sylw i'r Violas, y Cellos, ne'r Bas Dwbwl — dim ond hogyn mawr fel Cyril Baum o Drefor, fentrai fynd i'r afael â hwnnw. Ond mae'n rhaid ymatal rhag dechrau enwi gan fod y rhestr lawer yn rhy faith.

Dyma gyfnod pan oedd y Steddfodau bach yn gosod cystadleuaeth fel Unawd ar y Crwth (cwbl gamarweiniol, gan nad Crwth mo'r ffidil o bell ffordd). Pe tai waeth am hynny, da y cofiaf ddod â'r wobr gyntaf i'r ysgol o Steddfod y Sarn 1929 a Hopkin Evans yn beirniadu, a ffidil yn wobr. Pwy ym mherfeddion Llŷn a feddyliodd am wobr felly?

Ond bachgen o Bwllheli, Billy Williams, a ddaeth ag enwogrwydd cenedlaethol i'r ysgol pan enillodd yn Steddfod Lewis's Lerpwl. Musus Japheth oedd yn cadw siop fferins yn Stryd y Jêl yn prynu ffidil am ddeg punt a thrigain i Billy fynd yn ei flaen.

Perfformio yn y Wigmore Hall, Llundain, yn ifanc iawn, ond ymuno â Band Teddy Joyce, cyn mynd fel feiolinydd ar y leinars mawr, ond Mistar Jenkins yn anfoddog am iddo gefnu ar fyd y clasuron.

Ni ddaeth i'm rhan i fedru dilyn gweddill ymdrechion fy hen athro yn yr ysgol ac yng ngwyliau Cerdd Harlech. Mae rhai fel Rene Ellis, priod y telynor byd enwog Dr Osian Ellis, a Dr Llifon Hughes Jones, a llu o rai eraill yn llawer mwy hyddysg na mi am y cyfnod toreithiog hwnnw.

* * * *

PENNOD arall yn ei hanes oedd ei gyfraniad i Addysg oedolion. Ar yr amod ein bod yn byhafio cafodd rhai ohonom ni blant yr ysgol ganiatâd ysgrifennydd diwylliedig y dosbarth i ymuno â'r dosbarth yn y pentref — a ni oedd yn swnian am gael mynd — dyna faint ein hedmygedd o'r tiwtor ysgol nos.

Ryw ysgolion Gruffudd Jones, Llanddowror o drefniant mi greda i, a dyddiau dedwydd oedda nhw hefyd. Yr un brwdfrydedd oedd yn goferu yma eto, dros ddeg ar hugain yn dod i ysgol y pentre ar nosweithiau Gwener am hanner awr o theori, a chyfansoddi, yr un mesur o werthfawrogi'r clasuron, a chyfansoddi, cyn cael hanner awr o ganu'r ffidil.

Dosbarth a barhaodd am ddeng mlynedd, a gwn i rai tebyg gael eu cynnal o'r Eifl i ben y Rhiw yn Llŷn a hynny mewn dyddiau anodd.

Bûm yn holi fy hunan lawer tro yn ddiweddar am gefndir cerddorol yr athro cwbwl unigryw gan nas clywais ef erioed yn siarad amdano'i hun. A phwy oedd y dyn syber a edrychai fel sant arnom ni blant y gerddorfa yn hwrli bwrli gosod stands fel pryfaid cop yn barod i roi pyrfformans o'r *Hungarian Dances* a'r darnau eraill y buom yn eu canu yn 'Steddfod Genedlaethol Caergybi.

Fe gymerodd flynyddoedd cyn i mi wybod mai Syr Walford Davies oedd y gŵr distaw, a'i fod yno ar ymweliad ag un o'i *'star pupils'* yn ôl a glywais.

Ac yn ddiweddar iawn yn y llyfr hanes ar ail enedigaeth y genedl gan Kenneth D. Morgan, y dois i ddeall am ymdrechion personol ac egnïol Syr Walford Davies, wedi iddo ddod yn Athro i Goleg Aberystwyth ac yn Gyfarwyddwr y Cyngor Cerdd er hyrwyddo cerddoriaeth yng Nghymru. Bu hyn yn flaenffrwyth i ddatblygu sawl agwedd er galluogi'r Cymry i fod yn genedl gerddorol gyda bonws. A dyna'r cefndir a roes ei stamp ar y *'star pupil'*.



*Cerddorfa Ysgol Ramadeg Pwllheli a sefydlwyd yn 1929 gyda W. H. J. Jenkins yn y canol.*

## YMYL Y DDALEN

YN Y XVIII ganrif cafodd Annibynwyr Cymru eu bendithio â nifer o Weinidogion egnïol, gwŷr fel Lewis Rees (1710-1800), John Griffith, Glan-dŵr (1731-1811) a John Griffith, Caernarfon (1752-1818) — tri deheuwr.

Tueddir i anghofio cyfraniad y gwŷr hyn ac eraill tebyg iddynt.

Diwygiwyd gwaith Lewis Davies o'r Mynydd-bach *Cyfamod a rheolau eglwysig . . .* gan Lewis Rees a Samuel Jones a'i gyhoeddi yn 1774. Bron ugain mlynedd yn ddiweddarach fe gyhoeddwyd *Y mawr bwys o fod ein tybiau mewn crefydd yn gysson a'r Ysgrythur* (1973), sef cyfieithiad Lewis Rees o bregeth David Bogue. Yr oedd y cyfieithydd yn 87 oed. Pwy yw'r Parchedig Lewis Rees, awdur *Rhai reholau a chyfarwyddiauau... er cynnyddu cyfeillach grefyddol ym mhlith Crist'nogion* (1771)? Nid yw ei enw na rhif y llyfryn (4231) dan 'Enwau' t.814 yn *Libri Walliae*.

Cyfieithiad John Griffith, Glan-dŵr, yw *Attebion i rai achosion cydwybod ... ar amryw ystyriaethau pwysfawr* (1769). Y mae'r llyfryn *'Stafell Gyfaill* (1791) yn waith gwreiddiol.

Er mai casgliad o emynau gan awduron gwahanol yw *Amryw Salmau* (1783), nid yw'r gyfrol yn cael ei nod yn *Libri Walliae* dan enw'r sawl a gasglodd yr emynau, sef John Griffith, Caernarfon. Dilynwyd y gyfrol hon yn 1789 gan *Dechreuad a chynnydd crefydd yn yr enaid* sy'n gyfieithiad gan y gŵr o Gaernarfon o waith poblogaidd Phillip Doddridge.

Y mae fy nghopïau o weithiau'r gwŷr uchod yn weddol lân a chyflawn. Dengys rhestr tanysgrifwyr *Attebion...* (1769) fod John Owen, Caeau Môn, Cerrigceinwen wedi cymryd 48 o gopïau i'w gwerthu ym Môn. Ceir llofnod Richard Edward Llantrisant ar ddechrau *Dechreuad a chynnydd...* (1789). Dichon mai gŵr o Fôn oedd ef.

D.W.W.